

Y GYFARWYDDIAETH ADDYSG

COFNODION CYFARFOD FFORWM CYLLIDEB YSGOLION (FFCY) CAERDYDD



Amser: 8.30am – 10.30am
Dyddiad: 12 Mawrth 2025
Lleoliad: Microsoft Teams
Yn bresennol: Cadeirydd – Andrew Skinner (AS), y Cynghorydd Sarah Merry (SM), y Cynghorydd Chris Weaver (CW), Melanie Godfrey (MG), Helen Williams (HW), Ian Allwood (IA), Eifion Austin (EA), Angela Jardine (AJ), Nic Naish (NN), Nicola Price (NP), Paul Tucker (PT), Tim Adams (TA), Stuart Davies (SD), David Silver (DS), Sarah Parry (SP), Emma Richards (ER), Nick Alexander (NA), Suzanne Scarlett (SS), Marc Belli (MB), Gareth Rein (GR), Wayne Murphy (WM), Carys Prytherch (CP), Phil Norton (PN), Matthew O'Brien (MO'B), Ivor Gittins (IG), Will Howlett (WH), Brett Andrewartha (BA), Clerc Rheoli Addysg

Ymddiheuriadau: Richard Portas (RP), Abigale Cuthbert (AC), Jennie Hughes (JH), Alison Poole (AP), Phillip Andrews (PA), Diane Gill (DG), Alison Powell (AP), Catherine Power (CP), Y Cynghorydd Joel Williams (JW), Suzanne Williams (SW), Geraldine Foley (GF), Patrick Brunnock (PB), Sara Allen (SA), Ann Griffin (AG), Matthew Evans (ME),

Cyf	Casgliadau/Campau Gweithredu	Pwy
1.0	Ymddiheuriadau a chroeso	
1.1	Croesawodd y Cadeirydd yr aelodau a derbyniodd ymddiheuriadau.	
2.0	Cofnodion y cyfarfod diwethaf a materion yn codi	
2.1	Cymeradwywyd cofnodion y cyfarfod blaenorol fel cofnod cywir.	
2.2	<p>Camau gweithredu/materion yn codi o'r cyfarfod blaenorol:</p> <ul style="list-style-type: none">Nododd MG fod rheolwr prosiect ar gyfer gwaith cyflenwi yn cysylltu â Llywodraeth Cymru ar drefnu athrawon cyflenwi. Bydd datblygu polisi yn cael ei drafod y tu allan i'r cyfarfod hwn.O ran mecanwaith cyfathrebu gwell ar ffioedd i ysgolion, nododd IA fod taliadau CLG ar gyfer penaethiaid gweithredol a ffederasiynau rhwng dwy neu dair ysgol yn cael eu hadolygu. Byddai nifer fach o ffioedd CLG yn cael eu lleihau lle bo hynny'n briodol. Bydd CLGau yn cael eu cwblhau tua diwedd mis Mawrth.Cam Gweithredu: Bydd cynllunio/gweithredu ariannol y model newydd o gyllid ar gyfer SPYau yn cael ei adolygu yn FfCY mewn chwech i naw mis. Gwnaed newidiadau i'r fformiwla fel rhan o bennu cyllideb.Rhodddwyd gwybod i benaethiaid uwchradd am drefniadau cyllido newydd ar gyfer CLGau. Nododd NN fod gwaith ar y gweill mewn clystyrau, gyda chynigion yn cael eu trafod ar gyfer y cynllun CLG dros 2025/26.Roedd EA yn mynd i gynadleddau penaethiaid a Chymdeithas Llywodraethwyr Caerdydd i gyflwyno modelu ariannol y fformiwla a chyfathrebu newidiadau posibl.Cam Gweithredu: Bydd IA yn darparu arwyddion ar y gwahaniaeth mewn ffigurau rhwng dulliau fformiwla 2024/25 a 2025/26, er mwyn rhoi sicrwydd i aelodau'r FfCY of fewn yr ychydig wythnosau nesaf.	<p>Clerc Ar gyfer agenda Medi</p> <p>IA</p>

	<ul style="list-style-type: none"> • Diolchodd y Cadeirydd i'r aelodau am eu cyfraniad i lythyr ymateb gan Fforwm Cyllideb Ysgolion ar yr ymgynghoriad cyllideb, a anfonwyd (gan y Cadeirydd) at y Cynghorydd Weaver, a'i rannu gyda'r fforwm. Rhannwyd ymateb y Cynghorydd Weaver, yn cydnabod meddyliau ar y cyd, hefyd gyda'r fforwm. • Ystyriwyd papur y Cabinet ar ffrydiau grant ac adolygiad Haen Ganol gan Graffu yn ddiweddar. Nododd EA fod dyraniad cyllid grant a goblygiadau cost yn 2025/26 yn esblygu, oherwydd bod yn gyfran o flwyddyn y model gweithredu presennol. Mae gwaith yn digwydd ar y manylion; mae hysbysiad Llywodraeth Cymru ar grantiau penodol yn yr arfaeth. • Cam Gweithredu: Bydd EA yn darparu papur briffio ar newidiadau i'r Fformiwla a weithredwyd, gan gynnwys ffioedd arholiadau mewn ysgolion uwchradd. • Mae gwaith ar y Fformiwla Ysgolion Arbennig yn parhau; Bydd gweithdy pellach yn cael ei gynnal ar 21 Mawrth. Roedd disgrifyddion disgyblion yn cael eu hadolygu i adlewyrchu anghenion cyfredol, byddai cymarebau disgybl i athro/Cynorthwy-ydd Addysgu wedyn yn cael eu halinio â'r disgrifyddion i sicrhau cyllid priodol. • Roedd swyddogion cyllid yn cysylltu â phenaethiaid ar offer i gynorthwyo yn eu cynllunio. Bydd y rhain yn cael eu mireinio yn dilyn trafodaethau pellach a'u dwyn i'r FfCY ar ddyddiad yn y dyfodol. Cam Gweithredu: EA 	<p>EA</p> <p>EA</p>
3.0	Cyllideb Ysgolion 2025/26	
3.1	<p>Rhoddodd EA gyflwyniad, gan nodi allbwn cyllideb fformiwla ysgol ddirprwyedig, amserlenni gwybodaeth i ysgolion (o fewn pythefnos) a'r gyllideb gymeradwy.</p> <p><u>Cyllideb Ysgolion Dirprwyedig</u></p> <ul style="list-style-type: none"> • Cynyddodd Cyllidebau Ysgolion Dirprwyedig Caerdydd 7.5% <ul style="list-style-type: none"> ➢ Roedd £8.983m yn gysylltiedig â phwysau chwyddiant cyflog 2024/25 ➢ Roedd £13.950m yn gysylltiedig â phwysau yn 2025/26 <p>Cwestiynodd MB a oedd 7.5% wedi'i gyfrifo yn erbyn ffigur Mawrth 2024 neu Ebrill 2024, pan dderbyniodd ysgolion gyllid Llywodraeth Cymru ar gyfer dyfarniadau cyflog, gyda'r cynnydd yn llai os yw'r olaf.</p> <p>Cadarnhaodd EA mai 7.5% oedd y cymharydd â'r swm a ddirprwywyd fel rhan o broses gyllideb 2024/25 ym mis Mawrth 2024. Roedd y £8.983m o 2024/25 yn cynnwys diffyg o 2.5% ar gyfer dyfarniadau cyflog (dyrannwyd 3% i ddechrau o fis Medi 2024, gwiredwyd 5.5%) a phensiwn athrawon (a dderbyniwyd ym mis Tachwedd 2024).</p> <p>Roedd £13.950m yn cynnwys dyfarniad cyflog pum mis, dyfarniadau cyflog tybiedig o 3.5% i athrawon o fis Medi 2025, a dyfarniadau cyflog Ebrill 2025 ar gyfer staff nad ydynt yn addysgu (£1,150 y pwynt graddfa), ond nid yw'n cynnwys arian ychwanegol a dderbyniwyd ym mis Ebrill.</p> <p>Nododd MB fod y cynnydd yn gyfartaledd cymedrig yn hytrach nag ar lefel ysgol unigol, cyfrifwyd cyfran o'r gyllideb yn erbyn ysgolion gydag enillion a cholledion, gan ddod â heriau pellach i rai.</p> <p>Tynnodd IA sylw at yr awdurdod wedi cydnabod, dogfennu a chyfathrebu cynnydd gwirioneddol i gyllidebau ysgolion dirprwyedig ar gyfer blwyddyn ariannol 2025/26, mewn perthynas â phwysau sy'n cynnwys cyflog a chynnydd mewn lleoliadau</p>	

	<p>arbenigol. Yn gyffredinol, byddai cyllidebau ysgolion yn cynyddu o Ebrill 2024 i Ebrill 2025 gan 7.5%.</p> <p>Cadarnhaodd EA fod o'r cynnydd o 7.5% c40% yn ymwneud â phwysau chwyddiant cyflog 2024/25, mae c60% yn ymwneud â phwysau 2025/26.</p> <p>Nododd y Cadeirydd wahaniaeth fach yn y flwyddyn.</p> <p>Esboniodd EA fod dadchwyddiant prisiau ynni (c15% ar gyfartaledd ar gyfer ALLau Cymru) wedi'i gyflawni trwy ddadansoddiad o'r farchnad, gydag ALLau yn prynu bwndel ynni ymlaen llaw i roi sicrwydd ar bris.</p>	
3.2	<p><u>Newidiadau mewn trefniadau ar y cyd ers 2024/25</u></p> <p>Amlinellodd EA:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Roedd cyllidebau cyfunol wedi cynyddu. • Mae cynnydd cyllideb o 10% yn adlewyrchu cynnydd mewn lleoliadau a galw. • Symudwyd cyllid ar gyfer CLGau mewn ysgolion uwchradd o'r gyllideb ddirprwyedig i'r gyllideb gyfunol (+41%). • Gostyngwyd cyllidebau cyfunol cynradd (-14%) oherwydd gostyngiad yn nifer y disgyblion a demograffeg a ariennir sy'n dod i'r amlwg. • Cedwyd +£649k i ariannu twf mewn CAAu/lleoliadau arbenigol. • Cedwyd c£1,6m i weithredu'r model SPY newydd (cynnydd mewn CALI a throsglwyddo o ddirprwyedig). • +£300k UCD/Carnegie – cynnydd mewn niferoedd a dyfarniad cyflog • c£2m i weithredu'r model Edu Tech newydd (opsiynau optio i mewn/allan ar gael i ysgolion). • +£546k, cynnydd mewn cymhwysedd a derbyn lleoedd – cynradd/uwchradd. • +£825k oblygiadau YG cyllideb gyfunol, i'w dosbarthu i ysgolion ar ôl penderfynu cyllid YG ddiwedd y gwanwyn/dechrau'r haf. • +£375k adnodd cyfunol staff wedi'u hatal dros dro ar draws ysgolion cynradd, uwchradd ac arbennig, y tu allan i'r CGG, i rannu'r risg o gostau cyllido. 	
3.3	<p><u>Grantiau</u></p> <p>Nododd EA amserlen grantiau:</p> <p>Erbyn dydd Gwener 15 Mawrth 2025 bydd EA yn anfon at ysgolion:</p> <ul style="list-style-type: none"> • 2024/25 – cadarnhawyd cyllid Safonau Ysgolion ychwanegol gan LIC (tua £1.7m ar gyfer ysgolion Caerdydd). • 2025/26 – Dyraniad GDD llawn – gan gynnwys elfen llyfnhau. • 2025/26 – Cyfraniadau CLIE (potensial i lithro i 22/2/2025) <p>Dyraniadau pellach i'w cadarnhau:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Swyddog Ymgysylltu â Theuluoedd - bydd y cynllun gweithredu yn cael ei gytuno gan benaethiaid a'r awdurdod. • Dyraniad ysgolion diwygio'r cwricwlwm - dyraniad Llywodraeth Cymru i'w gadarnhau. 	
3.4	<p><u>Trefniadau cyfunol a CLGau</u></p>	

	<p>Cyfathrebiadau amrywiol â sectorau ar ad-daliadau posibl Ed Tech (pecyn safonol c1% o'r gyllideb ddirprwyedig, ac eithrio ôl-16, pecyn hanfodol 1.4% o'r gyllideb net), i'w gadarnhau erbyn 22 Mawrth.</p> <p>Ni fyddai unrhyw ad-daliad i ysgolion sy'n ceisio'r pecyn llawn.</p> <p>Mae SPYau yn ei gwneud yn ofynnol i'r CLG gael ei gadarnhau a'i lofnodi gan glystyrau i sicrhau bod ad-daliad arian yn adlewyrchu'r model gweithredu. Fel rhan o'r gosodiad cyllideb dyrannwyd cyllideb i bob clwstwr weithio ynddi. Penderfynwyd cronni oherwydd bod mwy o glystyrau sy'n ceisio gweithredu y tu allan i'r disgwyliadau.</p> <p>Bydd gwasanaethau ALI CLG i ysgolion yn cael eu lanlwytho i borth yr ysgolion erbyn 29 Mawrth.</p> <p>Cyfeiriodd NN at Ed Tech fel bod yn frigidoriad i ariannu'r rhaglen ac ad-daliad posibl ar gyfer pecynnau safonol a hanfodol. Byddai mwy o eglurder ar gynigion pecyn ac arian hwb ar gyfer pryniannau TG yn cael ei groesawu. Cwestiynodd a fyddai ysgolion sy'n tynnu'n ôl o'r pecyn llawn a dewis pecyn safonol neu hanfodol yn ariannol atebol am wifrau, cypyrddau cebl, gweinyddwyr a chaledwedd ac ati. Cam Gweithredu: Bydd MO'B yn darparu manylion manwl ar y CLG, pecynnau a materion y mae'n rhaid i'r ysgol eu trefnu y tu allan i'r pecyn llawn, erbyn diwedd yr wythnos.</p> <p>Croesawodd MB fodel gwasanaeth TG yr ALI y gallai ysgolion brynu i mewn. Nododd MO'B y byddai ffigurau catalog ar gyfer caffael yn cael eu rhannu erbyn canol yr wythnos nesaf.</p> <p>Bydd ysgolion sy'n dewis y pecyn hanfodol/safonol yn buddsoddi mewn addysgu a dysgu, gan ddefnyddio technoleg ddigidol gyda'r gallu i brynu dyfeisiau manyleb uwch i ddysgwyr am brisiau is.</p> <p>Gofynnodd NN a fyddai ysgolion sy'n dewis peidio â phrynu i mewn i'r pecyn llawn yn cael mynediad at gyllid. Cadarnhaodd MO'B y byddent, bydd trafodaethau yn cael eu cynnal gydag ysgolion cynradd i ystyried y pecyn hanfodol/safonol a sicrhau bod gan ysgolion y gallu i godi elfennau ychwanegol y tu allan i'r pecyn llawn. Nododd NN fod rhai ysgolion yn trafod gyda chyflenwyr trydydd parti a ddefnyddiwyd yn flaenorol, byddai eglurder ar ofynion ysgolion ar gyfer pob un o'r pecynnau erbyn dydd Gwener yn cael ei groesawu i ysgolion geisio sicrwydd gan gyflenwyr trydydd parti y gallent gyflawni'r ychwanegol.</p>	MO'B
4.0	CGG 24/25	
4.1	<p>Nododd EA:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Amcanestyniad cyfredol o orwariant o £1.25m yn 2024/25, gydag ad-daliad yn fwy na chyfraniad a risg sylweddol i falans CGG, c25% wedi'i orwario. • Blwyddyn gyntaf o rannu'r cynllun yn ôl sector/math o gyflenwi absenoldeb (absenoldeb mamolaeth/rhiant a chyflenwi am salwch). • Mae gorwariant absenoldeb mamolaeth a rhiant yn gyson ar draws sectorau o c20% i 25%. • Gwahaniaeth rhwng sectorau a lefel y gorwariant mewn absenoldeb salwch. • Roedd cynradd ac arbennig yn 35% yn cael eu gorwario, roedd uwchradd yn gytbwys yn ystod y flwyddyn. • Bydd mecanwaith adfachu yn cael ei actifadu ar ôl gorwariant sylweddol. 	

	<ul style="list-style-type: none"> • Argymhellwyd y bydd adfachu ar gyfer 2024/25 yn cynnwys pob ysgol yn y CGG, yn unol â'r sector a'r math o orwariant absenoldeb yn 2024/25, waeth beth yw penderfyniad aelodaeth 2025/26. • 22.5% o adfachiad cyfraniadau mamolaeth a absenoldeb rhiant ychwanegol, fesul sector. • Adfachiad cyfraniadau ychwanegol salwch 35% mewn ysgolion cynradd ac arbennig. • Bydd lefelau cyfraniadau newydd gan ysgolion ar gyfer CGG yn 2025/26 yn cael eu rhyddhau ar 15.03.2025 ac yn tybio adennill yn ystod y flwyddyn 2024/25. • Byddai cyfraniadau'n cynyddu gan 27% ar gyfer absenoldeb rhieni fesul sector. • Byddai salwch yn cynyddu gan 27.5% ar gyfer ysgolion cynradd, 5% ar gyfer ysgolion uwchradd a 40% ar gyfer ysgolion arbennig. <p>Gwahoddwyd cwestiynau.</p>	
5.0	Unrhyw Fater Arall	
5.1	Cadarnhaodd EA fod dyddiadau ar gyfer pennu cyllideb gymeradwy'r llywodraethwr wedi'u nodi yn y llythyr. Bydd cyfathrebu pellach yn cael ei anfon yn ystod y ddwy i dair wythnos nesaf i drefnu sesiynau dilynol a chyflwyno briffio ar broses/mecaneg ar gyfer penaethiaid a allai fod wedi colli'r sesiynau bwrdd gwaith, neu nad ydynt wedi bod trwy'r broses o'r blaen.	
6.0	Crynodeb o gamau gweithredu'r cyfarfod hwn	
6.1	<p>a. Roedd swyddogion cyllid yn cysylltu â phenaethiaid ar offer i gynorthwyo yn eu cynllunio. Bydd y rhain yn cael eu mireinio yn dilyn trafodaethau pellach a'u dwyn i'r FfCY ar ddyddiad yn y dyfodol.</p> <p>b. Bydd cynllunio/gweithredu ariannol y model newydd o gyllid ar gyfer SPYau yn cael ei adolygu yn FfCY mewn chwech i naw mis. Gwnaed newidiadau i'r fformiwla fel rhan o bennu cyllideb.</p> <p>c. Bydd IA yn darparu arwyddion ar y gwahaniaeth mewn ffigurau rhwng dulliau fformiwla 2024/25 a 2025/26, er mwyn rhoi sicrwydd i aelodau'r FfCY of fewn yr ychydig wythnosau nesaf.</p> <p>d. Bydd EA yn darparu papur briffio ar newidiadau i'r Fformiwla a weithredwyd, gan gynnwys ffioedd arholiadau mewn ysgolion uwchradd.</p> <p>e. Bydd MO'B yn darparu manylion manwl ar y CLG, pecynnau a materion er mwyn i'r ysgol eu trefnu y tu allan i'r pecyn llawn, erbyn diwedd yr wythnos.</p>	<p>Clerc Ar gyfer agenda Medi</p> <p>EA</p> <p>IA</p> <p>EA</p> <p>MO'B</p>

Acronymau

ADY	Anghenion Dysgu Ychwanegol
DDdY	Darpariaeth Ddysgu Ychwanegol
ASG	Adroddiad Strategaeth y Gyllideb
FfCY	Fforwm Cyllideb Ysgolion
CC	Cyngor Caerdydd
CGCC/CG	Cronfa Galedi Cyngor Caerdydd/Cronfa Galedi
TGAC	Taliad Gwella Anghenion Cymhleth
TG	Treth Gyngor
CYD	Cyllideb Ysgol wedi'i Dirprwyo
AHY	Addysg Heblaw yn yr Ysgol
CA	Cynllun Ariannol
GA	Gwasanaethau Ariannol
PYADd	Prydau Ysgol Am Ddim
BA	Blwyddyn Ariannol
AD	Adnoddau Dynol
ALI	Awdurdod Lleol
SALI	Setliad Awdurdod Lleol
SRhALI	Swyddog Rheoli Ariannol Lleol
LIL	Llywodraeth Leol
CGLIL	Cronfa Galedi Llywodraeth Leol
DLESRTh	Dysgwyr o Leiafrifoedd Ethnig a Sipsiwn, Roma a Theithwyr
CGG	Cronfa Gydgyflenwi
SCTC	Strategaeth Cyllideb Tymor Canolig
CATCau	Cyllidebau Ariannol Tymor Canolig
RhATC	Rheolaeth Ariannol Tymor Canolig
CATC	Cynllun Ariannol Tymor Canolig
YG	Yswiriant Gwladol
DC	Dyfarniad Cyflog
GDD	Grant Amddifadedd Disgyblion
Ch	Chwarter_ (Rhif perthnasol)
CBG	Cyflog Byw Gwirioneddol
SPY	Swyddog Presenoldeb Ysgolion
BY	Balans Ysgol
FfCY	Fforwm Cyllideb Ysgolion
AAA	Anghenion Addysgol Arbennig
CLG	Cytundeb Lefel Gwasanaeth
RhTY	Rhaglen Trefniadaeth Ysgolion
ULI	Undeb Llafur
LIC	Llywodraeth Cymru